SCHEDULE 2

ERTHYGLAU CYMDEITHASU CWMNI RTM
DEDDF CWMNÏAU 2006
ERTHYGLAU CYMDEITHASU [ENW] CWMNI RTM CYFYNGEDIG
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT SYDD HEB GYFALAF CYFRANDDALIADAU

# RHAN 1

## DEHONGLI, ENWAU AC AMCANION CWMNI RTM A CHYFYNGU ATEBOLRWYDD

### Diffinio termau

**1.** Yn yr erthyglau, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

mae i "aelod" yr ystyr a roddir i "member" yn adran 112 o Ddeddf 2006;

mae i "cadeirydd" yr ystyr a roddir yn erthygl 17;

mae i "cadeirydd y cyfarfod" yr ystyr a roddir yn erthygl 30;

mae i "cwmni RTM" (cwmni Hawl i Reoli) yr ystyr a roddir i "RTM company" yn adran 73 o Ddeddf 2002;

ystyr "cyfarwyddwr" yw cyfarwyddwr cwmni, ac y mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n dal swydd cyfarwyddwr, pa bynnag enw a roddir ar y swydd honno;

mae i "cymryd rhan", mewn perthynas â chyfarfod cyfarwyddwyr, yr ystyr a roddir yn erthygl 15;

ystyr "Deddf 2002" yw Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002;

mae i "Deddfau Cwmnïau" yr ystyr a roddir i "Companies Acts" fel y'u diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Cwmnïau 2006(**1**), i'r graddau y maent yn gymwys i'r cwmni;

mae "dogfen", oni phennir yn wahanol, yn cynnwys unrhyw ddogfen a anfonir neu a gyflenwir mewn ffurf electronig;

ystyr "erthyglau" yw erthyglau cymdeithasu'r cwmni;

ystyr "y Fangre" yw [enw a chyfeiriad];

mae i "ffurf electronig" yr ystyr a roddir i "electronic form" yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006");

mae i "hysbysiad dirprwy" yr ystyr a roddir yn erthygl 36;

mae i "is-gwmni" yr ystyr a roddir i "subsidiary" yn adran 1159 o Ddeddf 2006;

ystyr "landlord uniongyrchol", mewn perthynas ag uned yn y Fangre, yw'r person—

(a) os yw'r uned yn ddarostyngedig i les, sy'n landlord o dan y les; neu

(b) os yw'r uned yn ddarostyngedig i ddwy neu ragor o lesoedd, sy'n landlord o dan ba un bynnag o'r lesoedd sy'n israddol i'r lleill;

mae "methdaliad" yn cynnwys achos ansolfedd unigol, sy'n cael effaith gyffelyb i fethdaliad, mewn awdurdodaeth arall ac eithrio Cymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon;

mae i "penderfyniad arbennig" yr ystyr a roddir i "special resolution" yn adran 283 o Ddeddf 2006;

(**1**) 2006 (c. 46).

mae i "penderfyniad cyffredin" yr ystyr a roddir i "ordinary resolution" yn adran 282 o Ddeddf 2006;

mae i "tenant cymwys" yr ystyr a roddir i "qualifying tenant" yn adrannau 72 a 112 o Ddeddf 2002;

ystyr "uned breswyl" yw fflat neu unrhyw set arall ar wahân sy'n fangre a adeiladwyd neu a addaswyd at ddibenion annedd; ac

ystyr "ysgrifen" yw geiriau, symbolau neu wybodaeth arall, a gynrychiolir neu a atgynhyrchir mewn ffurf weladwy, gan ddefnyddio unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, ar gyfer eu hanfon neu'u cyflenwi mewn ffurf electronig neu rywfodd arall.

(2) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i eiriau ac ymadroddion eraill a geir yn yr erthyglau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Neddf Cwmnïau 2006 fel yr oedd mewn grym ar y dyddiad y gwnaed Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) 2011.

## ENW AC AMCANION Y CWMNI RTM

**2.** Enw'r cwmni yw [*enw*] Cwmni RTM Cyfyngedig.

**3.** Lleolir swyddfa gofrestredig y cwmni yng [*Nghymru*] /[*Nghymru a Lloegr*].

**4.** Yr amcanion y sefydlir y cwmni ar eu cyfer yw caffael ac arfer, yn unol â Deddf 2002, yr hawl i reoli'r Fangre.

**5.** Rhaid peidio â dehongli'r amcanion hyn mewn ffordd gyfyng ond yn hytrach, rhaid rhoi'r dehongliad ehangaf iddynt. Er mwyn hyrwyddo'r amcanion, ond nid fel arall, bydd gan y cwmni y pŵer i wneud popeth a awdurdodir neu sy'n ofynnol i gwmni RTM ei wneud, drwy ac o dan Ddeddf 2002, ac yn benodol (ond heb randdirymu grym cyffredinol yr uchod)—

(a) paratoi, gwneud a bwrw ymlaen â hawliad i gaffael yr hawl i reoli'r Fangre, neu ei dynnu'n ôl;

(b) arfer swyddogaethau rheoli o dan lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre yn unol ag adrannau 96 a 97 o Ddeddf 2002;

(c) arfer swyddogaethau mewn perthynas â rhoi cymeradwyaethau o dan lesoedd hir o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre yn unol ag adrannau 98 a 99 o Ddeddf 2002;

(ch) yn unol ag adrannau 100 a 101 o Ddeddf 2002, monitro, cadw golwg, adrodd wrth y landlord, a sicrhau neu orfodi cyflawni telerau unrhyw gyfamod, ymgymeriad, dyletswydd neu ymrwymiad, gan unrhyw berson, sy'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd â'r Fangre neu'n effeithio arni neu unrhyw rai o'i meddianwyr;

(d) negodi a gwneud ceisiadau i amrywio lesoedd yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Landlord a Thenant 1987 ("Deddf 1987");

(dd) gwneud y pethau eraill hynny a chyflawni'r swyddogaethau eraill hynny mewn perthynas â'r Fangre neu unrhyw lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre y cytunir arnynt o bryd i'w gilydd gyda'r landlord neu'r landlordiaid neu unrhyw bartïon eraill i'r les, yn ôl fel y digwydd;

(e) darparu a chynnal gwasanaethau ac amwynderau o bob disgrifiad mewn perthynas â'r Fangre;

(f) cynnal, ailaddurno, trwsio, adnewyddu, ailbeintio a glanhau'r Fangre; a thrin, cynnal, tirlunio a phlannu unrhyw erddi, libart neu dir sy'n rhan o'r Fangre;

(ff) ymrwymo mewn contractau ag adeiladwyr, glanhawyr, contractwyr, addurnwyr, garddwyr, tenantiaid neu unrhyw berson arall;

(g) ymgynghori ag unrhyw gynghorwyr proffesiynol a chadw eu gwasanaeth;

(ng) cyflogi unrhyw staff ac asiantwyr rheoli neu asiantwyr eraill;

(h) talu, rhoi cydnabyddiaeth neu wobrwyo mewn unrhyw fodd i unrhyw berson sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r cwmni;

(i) gwneud unrhyw gytundebau priodol neu ganlyniadol neu drefniadau er mwyn i'r hawl i reoli'r Fangre beidio â bod yn arferadwy gan y cwmni;

(j) dyroddi a derbyn unrhyw hysbysiad, gwrth-hysbysiad, caniatâd neu gyfathrebiad arall a gohebu ynghylch y Fangre neu'r hyn sy'n effeithio arni mewn unrhyw fodd, rheolaeth y Fangre, meddianwyr y Fangre, y cwmni, unrhyw un o'i weithgareddau, neu unrhyw un o'i aelodau;

(l) cychwyn, amddiffyn, cymryd rhan mewn, neu fwrw ymlaen ag unrhyw gais i unrhyw lys neu dribiwnlys o unrhyw ddisgrifiad neu mewn unrhyw achos arall gerbron unrhyw lys neu dribiwnlys o'r fath;

(ll) yswirio'r Fangre neu unrhyw eiddo arall y cwmni, neu eiddo y mae ganddo fuddiant ynddo, hyd at a chan gynnwys cost lawn ailadeiladu ac adfer y Fangre, gan gynnwys TAW, ffioedd penseiri, peirianwyr, cyfreithwyr, syrfewyr a'r holl bersonau proffesiynol eraill, y ffioedd sy'n daladwy ar unrhyw geisiadau am ganiatâd cynllunio neu ganiatadau neu gydsyniadau eraill a allai fod yn ofynnol mewn perthynas ag ailadeiladu neu adfer y Fangre, y gost o baratoi'r safle gan gynnwys cludo malurion ymaith, chwalu, gwaith cynnal ac ategu, clirio'r safle ac unrhyw waith a all fod yn ofynnol drwy statud, a mân dreuliau, yn ddarostyngedig i ba bynnag symiau trothwy, eithriadau neu gyfyngiadau sy'n arferol ym marchnad yswiriant Llundain. Yswirio'r cwmni a'i gyfarwyddwyr, swyddogion neu archwilwyr rhag atebolrwydd cyhoeddus ac unrhyw risgiau eraill yr ystyria'n ddoeth neu'n ddymunol yswirio rhagddynt;

(m) casglu neu dderbyn arian oddi wrth unrhyw berson ar gyfer taliadau gweinyddol, taliadau gwasanaeth, neu daliadau eraill mewn perthynas â'r Fangre a phan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith, trafod, dal neu fuddsoddi'r arian yn unol â darpariaethau Deddf 1987 ac unrhyw orchmynion neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno o bryd i'w gilydd;

(n) sefydlu, gwneud a gweithredu unrhyw ymddiriedolaethau y gellir yn gyfreithiol, neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, eu sefydlu, eu gweithredu neu eu gwneud gan y cwmni;

(o) sefydlu a chynnal cronfeydd cyfalaf wrth gefn, cronfeydd rheoli ac unrhyw ffurf ar gronfa ad-dalu er mwyn talu, neu gyfrannu tuag at, yr holl gostau, ffioedd a threuliau eraill a dynnir wrth weithredu amcanion y cwmni;

(p) buddsoddi unrhyw arian sydd gan y cwmni yn y Deyrnas Unedig drwy ei adneuo gyda llog gydag unrhyw sefydliad ariannol lle y ceir dal cronfa ymddiriedolaeth o gyfraniadau tâl gwasanaeth yn unol â Deddf 1987; neu ei fuddsoddi mewn modd arall (gan gynnwys prynu gwarannau a buddsoddiadau eraill) a awdurdodir gan y cwmni o bryd i'w gilydd mewn cyfarfod cyffredinol; a dal, gwerthu neu waredu fel arall unrhyw fuddsoddiadau o'r fath;

(ph) yn ddarostyngedig i unrhyw amodau neu gyfyngiadau a osodir gan y cwmni mewn cyfarfodydd cyffredinol o bryd i'w gilydd, ac yn ddarostyngedig i ddarparu sicrwydd digonol a thalu llog, talu blaensymiau a rhoi benthyg arian neu roi credyd i unrhyw berson; ymrwymo mewn gwarantau, contractau indemnio a meichiau; derbyn arian ar adnau neu ar fenthyg; a sicrhau neu warantu y telir unrhyw swm o arian neu y cyflawnir unrhyw ymrwymiad gan unrhyw berson;

(r) yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau neu amodau a osodir gan y cwmni mewn cyfarfod cyffredinol o bryd i'w gilydd, cymryd benthyg a chodi arian mewn unrhyw fodd a sicrhau yr ad-delir unrhyw arian a gymerir ar fenthyg, a godir neu sy'n ddyledus drwy forgais, arwystl, sicrwydd safonol, hawlrwym neu sicrwydd arall ar y cyfan neu ar ran o eiddo neu asedau'r cwmni (boed yn y presennol neu'r dyfodol);

(rh) gweithredu cyfrifon banc a thynnu, gwneud, derbyn, ardystio, disgowntio, negodi, gweithredu a dyroddi sieciau, biliau cyfnewid, dyledebion, nodion addewidiol ac offerynnau cyfnewidiadwy neu drosglwyddadwy eraill;

(s) talu'r cyfan neu unrhyw rai o'r treuliau a dynnwyd mewn cysylltiad â hyrwyddo, ffurfio ac ymgorffori'r cwmni, neu gontractio ag unrhyw berson i dalu treuliau o'r fath;

(t) monitro a phenderfynu, at ddibenion pleidleisio neu at unrhyw ddiben arall, dimensiynau ffisegol y Fangre ac unrhyw ran neu rannau o'r Fangre, a chymryd neu gael unrhyw fesuriadau priodol;

(th) ymrwymo mewn unrhyw gytundebau neu drefniadau gydag unrhyw lywodraeth, neu awdurdod (canolog, trefol, lleol, neu fel arall) sy'n ymddangos yn fuddiol er mwyn cyflawni amcanion y cwmni, a sicrhau gan unrhyw lywodraeth neu awdurdod o'r fath unrhyw siarteri, archddyfarniadau, hawliau, breintiau neu gonsesiynau a ystyrir yn ddymunol gan y cwmni, a chyflawni, arfer, a chydymffurfio ag unrhyw siarteri, archddyfarniadau, hawliau, breintiau a chonsesiynau o'r fath;

(u) gwneud yr holl bethau a bennir am y tro yn erthyglau cymdeithasu'r cwmni;

(w) gwneud neu gaffael neu drefnu ar gyfer gwneud y cyfan neu unrhyw rai o'r pethau neu faterion a grybwyllir uchod mewn unrhyw ran o'r byd, a hynny naill ai fel penaduriaid, asiantwyr, contractwyr neu fel arall, a chan neu drwy asiantwyr, broceriaid, is-gontractwyr neu fel arall, a naill ai ar ei ben ei hunan neu ar y cyd ag eraill; ac

(y) gwneud yr holl bethau cyfreithlon eraill hynny sy'n gysylltiedig ag ymgyrraedd at neu gyflawni amcanion y cwmni, neu'n ffafriol iddo.

**6.** Rhaid defnyddio incwm y cwmni, o ba le bynnag y deillia, at yr unig ddiben o hyrwyddo amcanion y cwmni, ac ni cheir gwneud dosraniad i'w aelodau, mewn arian nac fel arall, ac eithrio wrth ddirwyn y cwmni i ben.

CYFYNGU ATEBOLRWYDD

### Atebolrwydd yr aelodau

**7.** Mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un, sef y swm y maent yn ymgymryd i'w gyfrannu i asedau'r cwmni os digwydd iddo gael ei ddirwyn i ben tra bônt yn aelod, neu o fewn un flwyddyn wedi iddynt beidio â bod yn aelod, ar gyfer—

(a) talu dyledion a rhwymedigaethau'r cwmni a gontractiwyd cyn iddynt beidio â bod yn aelod;

(b) talu costau, ffioedd a threuliau dirwyn i ben; ac

(c) addasu hawliau'r cyfranwyr ymysg ei gilydd.